# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PANEL LLOFNODWYR CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 1, CANOLFAN DDINESIG, ABERTAWE DYDD LLUN, 24 GORFFENNAF 2017 AM 2.00 PM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd J E Burtonshaw (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

**Yn Cynrychioli Sefydliadau**:
Y Capt Chris Evans – y Fyddin
Is-gomander Ruth Fleming – y Llynges
Bruce Bagley - Dirprwy Raglaw
Tony Colburn - Y Lleng Brydeinig Frenhinol (Y Mwmbwls a De Gŵyr)
Adrian Rabey - Bwrdd Hyfforddiant Prydeinig
Nicola Russel-Brooks - Age Cymru Bae Abertawe
Dave Singletary - Cymdeithas Milwyr, Morwyr, Awyrenwyr a'u Teuluoedd
Sue Richards-Hoskin – Cruse Bereavement
Paul Whapham - Rygbi'r Gweilch
Jackie Preston - Cyngor ar Bopeth
Alyx Baharie - Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe

**Hefyd yn bresennol:**
Paul Jones MBE - Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Reeco Rees - SA1UTE

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Nigel Jones | Digwyddiadau Arbennig |
| Spencer Martin | Cydlynydd Perthnasoedd y Sector Gwirfoddol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Dean Thomas, Gail Smith, Mark Jones, Peter Neville a Peter Evans

12 **DERBYN DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Dim.

13 **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** cytuno bod cofnodion y panel a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2017 yn gofnod cywir

14 **PROSIECTAU CYMUNEDOL NEWYDD, YMGEISWYR POSIB AM GYLLID CYFAMOD**

Y Gweilch yn y Gymuned

Amlinellodd Paul Whapham, Rygbi'r Gweilch, gefndir a'r rhesymeg dros y cynnig roeddent eisoes wedi'i gyflwyno i Gronfa'r Cyfamod. Amlinellodd eu bod nhw eisoes wedi cyflwyno'r cynnig oherwydd graddfeydd amser.

Amlinellodd fod y prosiect yn seiliedig ar "atgof chwaraeon" ac yn seiliedig ar raglen "atgofion o'r byd chwaraeon" sydd eisoes wedi sefydlu yn Lloegr. Mae ei nodau'n cynnwys mynd i'r afael ag eithrio cymdeithasol ac arwahanrwydd ac yn ymdrechu i integreiddio hen bersonél y Lluoedd Arfog a phobl hŷn yn ôl i'r gymuned, drwy gyfarfodydd, digwyddiadau a gweithgareddau rheolaidd.

Nododd y gallai'r chwaraewyr presennol fod yn rhan o hyn ac os yw'r cyfarfodydd/sesiynau'n llwyddiannus, gallai gweithgareddau corfforol a grwpiau, megis cerdded/bowlio, gael eu trefnu.

Atebodd gwestiynau gan aelodau'r panel a oedd yn ymwneud â thrafnidiaeth, lleoliadau, targedu cynrychiolwyr etc.

Atgoffodd Capt Chris Evans y panel o'r broses bresennol y mae'r cais am gyllid yn ei ddilyn ar hyn o bryd drwy'r Weinyddiaeth Amddiffyn a'r bwrdd lleol yn Aberhonddu. Nododd, os bydd cyfle, yr angen i hyrwyddo'r cysylltiadau posib â'r cynlluniau lleol sydd eisoes wedi'u hariannu drwy gronfa'r cyfamod yng nghlwb rygbi Tregŵyr, Cruse Bereavement a gall y prosiect Bulldogs gynorthwyo gyda'u llwyddiant. Gallai fynediad i gronfa ddata'r cwsmeriaid posib, fel pob grŵp yn y sector hwn, fod yn broblem wrth symud ymlaen

Croesawodd y Cadeirydd ac aelodau'r panel y prosiect a chefnogwyd y cais yn llwyr.

<u>SA1ute</u>

Amlinellodd Reeco Rees y cefndir a'r rhesymau dros ddatblygu'r prosiect sy'n ceisio darparu ystod o weithgareddau awyr agored i hen bersonél y Lluoedd Arfog, a'r rhai sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd, a'u teuluoedd. Nododd fod y tir angenrheidiol wedi'i addo i'r grŵp a bod trefniadau i godi arian ar waith. Amlinellodd ei gysylltiadau â'r milwr presennol, Lee West a'r grŵp Trampface.

Nododd ei fod yn ceisio cyngor, cymorth a chefnogaeth i wireddu'r syniad yn gyfleuster go iawn. Amlinellodd ei fod eisoes wedi dechrau'r broses o gofrestru'r grŵp gyda'r Comisiwn Elusennau.

Roedd y panel yn gefnogol o'r prosiect yn gyffredinol ond roedd hi'n hanfodol bod Mr Rees yn cofrestru'r prosiect gyda'r Comisiwn Elusennau, gan mai elusennau cofrestredig yn unig all wneud cais am gyllid y cyfamod. Byddai angen i'r cynllun gael ei gymeradwyo'n ffurfiol unwaith iddo gael ei gymeradwyo fel elusen.

Amlinellodd aelodau'r panel y materion posib sy'n ymwneud â chostau yswiriant, trafnidiaeth, ac, unwaith eto, sefydlu cronfa ddata o bobl sy'n gymwys.

## 15 Y DIWEDDARAF GAN AELODAU'R PANEL.

Rhoddwyd diweddariadau ar lafar gan Aelodau'r Panel ynglŷn â'r gweithgareddau presennol ac arfaethedig, digwyddiadau a llwythi gwaith eu grwpiau/sefydliadau priodol, gan gynnwys y meysydd canlynol:

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe
Cyfeiriodd Alyx Baharie at y cysylltiadau posib rhwng rhaglen Cynnydd, NEETs, profiad milwrol a chyllid posib o gyllid LIBOR.

Amlinellodd Spencer Martin y byddai'n ymchwilio ymhellach i'r mater.

Y Fyddin
Nododd Chris Evans fod Diwrnod y Lluoedd Arfog ar 24 Mehefin wedi bod yn llwyddiant mawr, a bod y Sioe Awyr hefyd wedi bod yn ddigwyddiad gwych i bawb a oedd yn rhan ohonynt.

Nododd fod y Ffair Cyflogaeth i Gyn-filwyr wedi'i threfnu ar gyfer y Grange, West Cross ar 7 Medi rhwng 10am-2pm, ac mae'n agored i hen bersonel y Lluoedd Arfog a'r personél presennol.

Mae hefyd yn ymchwilio gyda'r awdurdod lleol i osod y garafan recriwtio yng nghanol y ddinas yn fwy rheolaidd.

Nododd unwaith bydd y cyfamod yn cael ei ailarwyddo, bydd yn cael ei arddangos yn y Ganolfan Ddinesig ac mewn digwyddiad a gynhelir yn y Grange er mwyn hyrwyddo'r digwyddiad.

Y Llynges

Ailadroddodd Ruth Fleming lwyddiant Diwrnod y Lluoedd Arfog.

Cyfeiriodd at ddigwyddiad Wrens Walking Wales a'r ymateb gwych a gafwyd yn Abertawe, yn enwedig gan y Lleng Brydeinig yn y Mwmbwls, yr ymweliad gan yr Arglwydd Raglaw a'r digwyddiad a gynhaliwyd gyda'r Arglwydd Faer yn y Plasty.

Cyfeiriodd at ddigwyddiad ffederasiwn ar gyfer teuluoedd y Llynges Frenhinol sy'n ceisio cyfuno'r wybodaeth am bersonél y Llynges Frenhinol leol a'u teuluoedd sydd i'w gynnal yn fuan, a bydd y manylion hynny'n cael eu rhannu ag aelodau'r panel.

Digwyddiadau Arbennig

Cyfeiriodd Nigel Jones at lwyddiant y Sioe Awyr a nododd fod trafodaethau'n parhau ynghylch digwyddiad blwyddyn nesaf. Amlinellodd efallai y bydd angen iddo gael ei gynnal ar Ddiwrnod y Lluoedd Arfog oherwydd ymrwymiadau'r Awyrlu Brenhinol, lle bydd angen gwneud newidiadau priodol er mwyn cynnal y ddau ddigwyddiad ar y blaendraeth.

Esboniodd fod Distawrwydd yn y Sgwâr wedi'i drefnu unwaith eto ar gyfer 11 Tachwedd.

Age Cymru Bae Abertawe
Nododd Nicola Russel-Brooks mai hwn oedd ei chyfarfod olaf ar y panel cyn ei hymddeoliad. Byddai'n trosglwyddo'r manylion ei holynydd maes o law.

Bwrdd Hyfforddiant Prydeinig
Soniodd Adrian Rabey am "lansiad cychwynnol" diweddar prosiect newydd Academi Gymunedol y Lluoedd Arfog (AFCA), sy'n ceisio cynorthwyo personél ymhellach wrth iddynt symud o fywyd milwrol i fywyd bob dydd.Nododd fod dros 600 o bobl wedi ymuno â'r cynllun hyd yn hyn, a manylodd ar y cysylltiadau â chwmniau sydd eisoes wedi'u gwneud, sy'n sicrhau cyfweliadau i'w cleientiaid.

Rygbi'r Gweilch
Adroddodd Paul Whapham fod y Gweilch wedi derbyn Gwobr Efydd y Lluoedd Arfog, ac atgoffodd aelodau'r panel o'r tocynnau i gemau cartref y Gweilch sydd ar gael ar gyfer personél sy'n gwasanaethu a chyn-filwyr.

Y Lleng Brydeinig Frenhinol
Adroddodd Tony Colburn ar gyfranogiad cangen y Mwmbwls a Gŵyr gyda digwyddiad Wrens Walking Wales.

Cyfeiriodd at ddiffyg ymwybyddiaeth gyhoeddus o ddigwyddiad Diwrnod y Lluoedd Arfog yn y Mwmbwls, a nododd fod y gangen leol wedi prynu baner er mwyn hyrwyddo'r digwyddiad.

Cruse Bereavement
Nododd Sue Richards-Hoskin fod ei sefydliad yn parhau i geisio cynyddu ymwybyddiaeth o'u gwasanaethau i deuluoedd, personél a chyn-filwyr.

Cadeirydd
Nododd y Cynghorydd June Burtonshaw ei bod wedi siarad â'r Dirprwy Arweinydd ynghylch prynu polyn fflag ychwanegol, a nododd y dylai'r mater fod wedi'i ddatrys nawr.

Llongyfarchodd bawb a oedd yn rhan o lwyddiant Diwrnod y Lluoedd Arfog a'r Sioe Awyr.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.00 pm

**CADEIRYDD**